Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad
Senedd Cymru

Commonwealth Parliamentary Association
Welsh Parliament

# Gweithdy Masnach ar gyfer Tiriogaethau Tramor, Tiriogaethau Dibynnol y Goron a'r Deddfwrfeydd Datganoledig

## Cyflwyniad

Roeddwn yn bresennol yn y gweithdy hwn yn San Steffan ym mis Chwefror i gael mewnwelediad dyfnach a dealltwriaeth ehangach o sut mae Brexit wedi effeithio ar bolisi masnach ar draws y Gymanwlad a sut mae gwahanol lywodraethau a gweinyddiaethau yn ymateb i'r heriau hyn.

Roedd penderfyniad y DU i adael yr Undeb Ewropeaidd yn cyflwyno her unigryw i'r DU, Tiriogaethau Dibynnol y Goron a Thiriogaethau Tramor. Mae'n bwysig cydnabod nad oedd neb yn croesawu'r penderfyniad. Mewn sawl ffordd wahanol roedd hon yn drafodaeth ar liniaru'r difrod a wnaed i'n perthnasoedd a'n henw da, yn hytrach nag yn drafodaeth ynghylch cyfleoedd newydd.

Am y tro cyntaf ers dros 40 mlynedd, mae'r DU wedi gallu mynd ar drywydd cytundebau masnach yn annibynnol, a daeth angen am ragor o oruchwyliaeth a chraffu seneddol gyda hyn. Ceisiodd y gweithdy edrych yn fanwl ar y dirwedd masnach ledled y Gymanwlad ac effaith Brexit ar y DU a'i Thiriogaethau Tramor a'r gwledydd datganoledig.

Yn yr adroddiad byr hwn rwyf wedi ceisio dadansoddi'r sesiynau a'r trafodaethau a oedd fwyaf perthnasol i Gymru.

## Tirwedd Masnach Ryngwladol

Roedd y sesiwn agoriadol hon o'r gweithdy yn rhoi trosolwg byd-eang o dueddiadau a phatrymau o ran masnach ryngwladol ledled y Gymanwlad heddiw. Cawsom drafodaeth dda ynghylch y newidiadau ym mhatrymau masnach ar draws y Gymanwlad a gwahanol ranbarthau'r byd.

Dechreuwyd gyda sesiwn friffio ar fasnach o fewn y Gymanwlad. Rhoddodd Dr Brendan Vickers, Ysgrifenyddiaeth y Gymanwlad ei safbwynt ar y dirwedd fasnach ryngwladol ar hyn o bryd ac effaith Covid ar fasnach a buddsoddiad rhyngwladol, ar adferiad economaidd ar ôl Covid, a rôl technoleg. Pennawd cyfraniad Dr Vickers oedd arwyddocâd masnach o fewn y Gymanwlad: gyda'r rhagolygon yn nodi y bydd allforion o fewn y Gymanwlad yn fwy nag 1 triliwn o UD$ erbyn 2026. Fodd bynnag, nodwyd bod allforion masnach o fewn y Gymanwlad yn gryno iawn, a bod nwyddau a gwasanaethau sy'n dod yn bennaf o India a Singapôr yn enghraifft o hyn. Amlinellodd Dr Vickers yr hyn a ystyriai oedd y canlyniadau allweddol o Gyfarfod Penaethiaid Llywodraethau'r Gymanwlad (CHOGM) o ran masnach. Penaethiaid Gwladwriaethau: cytunwyd ar gamau gweithredu uchelgeisiol i hybu masnach i 2 triliwn US$ erbyn 2030; cydnabuwyd pwysigrwydd masnach ar gyfer twf economaidd cynhwysol a chynaliadwy, a ffyniant; a chydnabuwyd bod angen am ddiogeledd bwyd drwy fasnach.

## Sesiwn friffio ar Brexit: Y DU saith mlynedd ar ôl 2016

Roedd y drafodaeth hon yn canolbwyntio ar ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd, y ffyrdd y mae tirwedd fasnachu'r DU a phrosesau craffu seneddol wedi newid ers hynny, ar gyfeiriad posibl polisi masnachu'r DU yn y dyfodol, ynghyd ag effaith ehangach Brexit. Cafwyd cyflwyniadau da a phryfoclyd fel yr amlinellaf isod. Roedd y dadleuon a'r trafodaethau'n canolbwyntio ar y difrod y mae Brexit yn ei wneud i wahanol diriogaethau mewn gwahanol rannau o'r byd.

Bu'r Arglwydd Lansley yn trafod rôl Tŷ'r Arglwyddi yn ystod trafodaethau Brexit, ac wrth graffu ar gytundebau gyda'r UE, ac yna'n sôn am y cytundebau masnach rydd gyda Japan, Awstralia a Seland Newydd. Roedd yn amlwg bod yr Arglwyddi eisiau clywed lleisiau gwahanol, ac yn arbennig o awyddus i glywed gan awdurdodaethau llai wrth gasglu tystiolaeth. Amlygodd yr Athro Holger Hestermeyer mai'r mater allweddol o ran trafodaethau masnach yw nad yw'r amrywiaeth o safbwyntiau yr ymgynghorwyd yn eu cylch yn ddigon eang, a'u bod yn aml yn hepgor awdurdodaethau llai, er bod yr effaith ar y rhain yn uniongyrchol.

Hefyd nododd yr Athro Hestermeyer, hyd yn oed pan ymgynghorir â rhanddeiliaid amrywiol, fod hyn yn digwydd yn rhy hwyr yn y broses. Daeth i'r casgliad ei bod yn angenrheidiol i bawb sydd â diddordeb fod yn rhan o'r broses o ddechrau'r trafodaethau er mwyn sicrhau canlyniadau gwell i'r holl randdeiliaid.

Yn olaf, soniodd Dr Joelle Grogan am gyfyngiadau craffu seneddol yn y DU ar hyn o bryd. Nid yw'r broses wedi newid ers 2010, tra bod y cyd-destun a'r cynnwys o ran cytundebau wedi newid yn sylweddol. Nid oes dim rhwymedigaeth gyfreithiol i ofyn am gydsyniad na mynd at Senedd y DU i drafod cytuniadau, ac nid oes dim gofynion

cyfreithiol i Lywodraeth y DU ofyn am farn Tiriogaethau Tramor, Tiriogaethau Dibynnol y Goron na'r Deddfwrfeydd Datganoledig.

Barn gyffredinol Dr Grogan oedd bod y broses gyd-drafod yn parhau'n aneglur o'i chymharu â sut mae cytuniadau yn cael eu harwain yn yr UE, a'i bod yn rhoi fawr ddim cyfle, os o gwbl, i ailagor trafodaethau os canfyddir anghytundeb. Ystyriwyd bod hyn yn destun pryder arbennig o ystyried bod ymrwymiadau a osodwyd o ran cytundebau masnach yn rhwymo seneddau'r dyfodol.

Roedd y Tiriogaethau Tramor, Tiriogaethau Dibynnol y Goron a'r gwledydd datganoledig a gymerodd ran yn credu hyn hefyd, ac nad ymgynghorwyd â nhw yn effeithiol yn ystod trafodaethau masnach. Cytunodd yr holl gynrychiolwyr fod angen atebolrwydd a chraffu rhyng-sefydliadol mwy ffurfiol, er mwyn galluogi pob awdurdodaeth y mae cytundebau'n effeithio'n uniongyrchol arnynt i leisio'u barn.

## Sesiwn friffio ar Brexit: Rhan 2 - Effaith ymadawiad y DU ar Diriogaethau Tramor, Tiriogaethau Dibynnol y Goron a'r deddfwrfeydd datganoledig.

Roedd y drafodaeth bwrdd crwn hon yn gyfle i fyfyrio ar y ffyrdd y mae ymadawiad y DU â'r UE wedi difrodi tirwedd masnach a buddsoddi eu hawdurdodaethau, ac i edrych ar effaith cytundeb y DU â'r UE, yn ogystal â'r rhwystrau a wynebir gan ddeddfwrfeydd llai o ran masnach ryngwladol ar ôl gadael yr UE.

Dywedodd yr Anrh. Corinda Essex o St Helena am yr heriau y mae St Helena yn eu hwynebu oherwydd Brexit, gan gynnwys rhagor o ddibyniaeth ar lywodraeth y DU i ddiwallu eu hanghenion ariannol. Adroddodd Corinda ymhellach na fu fawr o ymgynghori â St Helena yn ystod y cam cyd-drafod, er eu bod yn dibynnu ar gyllid o raglenni'r UE.

Dyma'r sesiwn y siaradais i ynddi am yr heriau y mae Cymru yn eu hwynebu, yn enwedig y diffyg ymreolaeth a mecanweithiau i ddatrys anghydfodau sy'n deillio o Brexit, yn ogystal â'r golled ariannol uniongyrchol. Roeddwn i'n nodi'n glir iawn nad oes dim cydsyniad wedi'i roi gan y Senedd i'r pŵer dros drefniadau cyllido ar ôl gadael yr UE, a bod consensws amlwg yn y Senedd na fu dim ymgynghori yn ystod y trafodaethau masnach ar ôl Brexit, nac ychwaith y cawsom ddigon o wybodaeth am gytundebau masnach sy'n effeithio'n uniongyrchol ar yr awdurdodaeth.

Tynnodd Corinda a minnau sylw at fod angen i leisiau amrywiol o'r Tiriogaethau Tramor, Tiriogaethau Dibynnol y Goron a'r Deddfwrfeydd Datganoledig fod yn rhan o gamau cynnar y broses negodi, er mwyn sicrhau bod eu blaenoriaethau'n cael eu

hymgorffori hefyd, yn ogystal â chael gwell dealltwriaeth o sut y bydd cytundebau'n gweithredu yn ymarferol.

## Y tu ôl i'r llenni: Golwg ar y Broses Negodi

Roedd hon yn un o'r sesiynau mwyaf cyfareddol, pan gafwyd golwg fanwl, fewnol ar brofiadau cyn-drafodwyr ac arbenigwyr masnach. Roedd y mewnwelediad hwn yn amhrisiadwy ac mae rhai o bwyllgorau'r Senedd a fyddai hefyd yn elwa o glywed y profiadau hyn ac a fyddai'n dysgu o'r lefel hon o arbenigedd.

O'r cychwyn cyntaf nododd Dr Minako Morita-Jaeger, er bod trafodaethau masnach yn amrywio ar draws y gwledydd, yn gyffredinol mae rhyngweithio rhwng cyfraith ddomestig a chyfraith ryngwladol. Pwysleisiodd Dr Morita-Jaeger fod angen i sefydliadau cymdeithas sifil fod yn rhanddeiliaid allweddol oherwydd effaith cytundebau ar benderfyniadau polisi. Pwysleisiodd fod sgyrsiau trawsadrannol yn allweddol i sicrhau bod rhanddeiliaid nad ydynt yn ymwneud â busnes yn cael eu clywed, er enghraifft, yn ystod trafodaethau ynghylch cytundeb y DU ag Awstralia.

Ar ôl y cyflwyniad hwn, bu James Kane yn trafod gwaith Adran Masnach Ryngwladol Llywodraeth y DU (sef yr Adran Busnes a Masnach bellach), gan gynnwys y broses ymgynghori o ran darpar gytundebau masnach newydd gyda senedd y DU a busnesau. Mae'n deg dweud bod gen i safbwynt gwahanol ar effeithiolrwydd y broses hon!

Yn olaf, bu Dmitry Grozoubinsky yn siarad am natur trafodaethau masnach, a sut y maent yn aneglur i'r rhai sydd y tu allan i'r broses. Nododd, fod angen i seneddwyr nad ydynt yn ymwneud â'r trafodaethau wybod faint y gall rhywun ddylanwadu ar y broses a pha offer sydd ar gael i wneud hynny. Amlygwyd bod dynodi hyrwyddwr thematig o blith y rhai sy'n negodi yn ystafell y Cabinet yn ffordd allweddol y gall pobl o'r tu allan ddylanwadu ar y broses.

O safbwynt Cymru, mae angen i swyddogion Llywodraeth Cymru gael eu hymgorffori yn adrannau masnach y DU os ydym am gael unrhyw ddylanwad o gwbl ar y broses a'r amcanion negodi. Roedd cynsail ar gyfer hyn pan fu swyddogion Llywodraeth Cymru yn cael secondiadau i Gynrychiolaeth Barhaol y Deyrnas Unedig yn yr UE (UKRep) ac adrannau'r DU yn y gorffennol. Bydd y cydweithio hwn yn bwysicach yn y dyfodol, ac mae'n sôn fod angen setliad a diwylliant gweithio gwahanol i'r hyn sy'n bodoli heddiw.

## Pysgodfeydd a Masnach: Posibiliadau a Heriau yn y Tiriogaethau Tramor a Thiriogaethau Dibynnol y Goron

Roedd y sesiwn hon yn edrych ar y ffyrdd y mae materion fel ymreolaeth reoleiddiol, mynediad i ddyfroedd a chyfrannau cwota yn effeithio ar bysgodfeydd y gwledydd hyn. Cefais fy syfrdanu gan effaith Brexit mewn gwahanol rannau o'r byd, a dychrynais sut yr amharwyd ar y polisïau masnach a physgodfeydd, heb ddim esboniad i unrhyw un o lywodraethau'r tiriogaethau nac unrhyw ymwneud ganddynt.

Cefais fy synnu'n arbennig o ddeall yr effaith ar ynysoedd y Falkland. Bu'r Anrh. Dr Teslyn Barkman yn trafod pwysigrwydd pysgod a môr-lewys (squid) i economi Ynysoedd y Falkland: am eu bod yn sylfaen i gyfoeth yr Ynysoedd a bod 30 y cant o gyllideb y llywodraeth yno yn cael ei neilltuo i gynaliadwyedd morol. Eglurodd Dr Barkman, cyn Brexit, roedd un bysgodfa yn unig wedi gwneud £1.7 biliwn dros y 9 mlynedd diwethaf, a oedd yn codi'r cwestiwn, sut y gall yr awdurdodaeth barhau i gynyddu'r refeniw hwn y tu allan i'r UE pan oedd hyn yn cefnogi 44 y cant o economi Ynysoedd y Falkland. Fe wnaeth Dr Barkman grynhoi mai Ynysoedd y Falkland oedd y Diriogaeth Dramor yr effeithiwyd arni fwyaf gan Brexit o ran colli masnach. Gan nad ydynt wedi'u cynnwys yn y cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng yr UE a'r DU ar hyn o bryd, mae'r seneddwyr yn eiriol dros gael eu cynnwys a/neu gael eu cytundeb pwrpasol eu hunain gyda'r UE, i'w galluogi i gynnal eu perthnasoedd masnachu blaenorol.

## Y Nodau Datblygu Cynaliadwy a Masnach: Cysylltiadau a Chyfraniadau

Roedd y sesiwn hon yn edrych ar ffyrdd y mae prosesau masnachu presennol yn ceisio cynnal y Nodau Datblygu Cynaliadwy, a nodwyd sawl cam a allai helpu i sicrhau bod masnach ryngwladol yn gweithredu fel peiriant ar gyfer twf cynhwysol, a lleihau tlodi.

Agorwyd y sesiwn gan yr Arglwydd Purvis a soniodd fod angen am graffu seneddol effeithiol i ddatgelu a yw cytundebau masnach yn gydnaws â nodau datblygu cynaliadwy a phryderon ynghylch hawliau dynol. Roedd hefyd yn glir, er y gall masnach gyfrannu'n gadarnhaol at gyfiawnder cymdeithasol ac economaidd, mae angen ymgorffori hyn yn fwy systematig o ddechrau'r trafodaethau masnach er mwyn cyflawni'r nodau hyn.

Yn yr un modd, amlygodd Jean Blavock y gwahaniaeth rhwng yr hyn y gallai cytundebau masnach ei gyflawni o gymharu â'r hyn y maent yn ei gyflawni'n ymarferol. Soniodd Jean am bwysigrwydd iaith rwymol a dyheadol mewn cytundebau masnach i sicrhau bod cytundebau yn gweithredu er budd cydraddoldeb, cynaliadwyedd a datblygiad. Er bod tuedd i ddefnyddio iaith rwymol ynghylch darpariaethau'r farchnad, dywedodd Jean mai anaml y defnyddir yr un math o iaith mewn cysylltiad â materion hawliau dynol a chynaliadwyedd.

Yn olaf, cyfrannodd Ruth Bergan at y sesiwn o safbwynt amgylcheddol, gan dynnu sylw at ddirywiad datblygu cynaliadwy a chynhwysiant amgylcheddol o fewn cytundebau masnach, o ganlyniad i ddiffyg strategaeth gyffredinol yn dilyn ymadawiad y DU â’r Undeb Ewropeaidd. Trafododd Ruth ymgyrch y Mudiad Cyfiawnder Masnach sy'n honni y dylai'r DU ymadael â'r Cytundeb Siarter Ynni i hyrwyddo trawsnewid i economi carbon isel a chefnogi economïau sy'n datblygu, i leihau eu hallyriadau.

Roedd y sesiwn hon yn pwysleisio bod angen i ni yng Nghymru fabwysiadu polisi masnach sy’n seiliedig ar werthoedd, a pholisi sy’n cynnwys llawer o elfennau eraill iddo yn ogystal â masnach – o bolisi hinsawdd i hawliau dynol a chyfnewid diwylliannol.

## Adolygu Cytundeb Masnach Rydd

Roedd y sesiwn olaf hon, o dan arweiniad yr Athro Michael Gasiorek, yn darparu casgliadau a throsolwg i gymhwyso rhai o’r trafodaethau blaenorol wrth ddadansoddi cytundeb masnach rydd. Nod y gweithdy eang hwn oedd canfod cwmpas a goblygiadau cytundeb masnach rydd (FTA). Disgrifiodd yr Athro Gasiorek fod cytundebau masnach rydd wedi cynyddu’n sylweddol o ran cymhlethdod a chynnwys dros yr ugain mlynedd diwethaf, gan greu rhagor o le ar gyfer rhyngddibyniaethau. Mae cytundebau, felly, hefyd yn amrywio’n fawr: fel arfer bydd meysydd cyffredin ynddynt yn ymwneud â thariffau, ond mae ymrwymiadau’n amrywio. Argymhellodd yr Athro Gasiorek hefyd y dylid dod o hyd i dystiolaeth a gwaith ymchwil ar gyfer gweithio’n systematig drwy’r cwestiwn uchod, gan ddefnyddio dogfennau swyddogol y llywodraeth, fel dogfennau cwmpasu ac asesiadau effaith, ymchwiliadau seneddol, gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid, ac ymchwilwyr academaidd annibynnol.

## Casgliadau

Roedd hwn yn weithdy hynod ddiddorol gyda siaradwyr diddorol a chraff. Rhoddodd y gweithdy gyfle i bob un ohonom ddadlau a thrafod effaith Brexit yn ogystal â’r amgylchedd masnach a pholisi newydd. Mae’n drawiadol bod yr holl gyfranogwyr o wahanol rannau o’r Gymanwlad mewn gwahanol rannau o’r byd i gyd yn teimlo bod Brexit wedi difrodi eu perthnasoedd masnachu a’u henw da rhyngwladol. Roedd llawer o arbenigwyr masnach hefyd o’r un farn.

O ran Cymru, byddai’n ddefnyddiol cael rhagor o sgyrsiau gyda deddfwrfeydd datganoledig eraill, fel rhannau o’r DU, a chyda Thiriogaethau Dibynnol y Goron oherwydd bod gan bob un ohonom berthynas â Llywodraeth y DU a chyd-destun sy’n wahanol iawn i weinyddiaethau eraill.

**Alun Davies AS**